# GRANT CYMORTH TAI GWENT

# GWEITHGAREDDAU A GANIATEIR

REVIEW 2024

**Cymorth Tai Blaenau Gwent**

supporting.people@blaenau-gwent.gov.uk
07811068668

**Cefnogi Pobl Caerffili**

supportingpeople@caerphilly.gov.uk

01443 864548

**Cymorth Tai Sir Fynwy**

housingsupportservice2@monmouthshire.gov.uk
01633 740730

**Cymorth Tai Casnewydd**

newport.gateway@newport.gov.uk
01633 656656

**Cymorth Tai Torfaen**

gateway@torfaen.gov.uk
01495 766949

*Chwefror 2024*

# Cyflwyniad

**Cyfarwyddyd Arfer Grant Cymorth Tai (2020)**

Dylid darllen y Gweithgareddau a Ganiateir yn y ddogfen hon yng nghyd-destun y ddogfen Cyfarwyddyd Arfer Grant Cymorth Tai (2020). Mae'r cyfarwyddyd yn dweud fod Cymorth yn Ymwneud â Thai (CYTh) yn cael ei roi i bobl fregus i'w helpu i ddatblygu a chynnal y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl. Dylai tai ac atal digartrefedd/ pobl yn byw mewn lleoliadau sefydliadol amhriodol fod wrth graidd gwasanaethau CYTh. Dylai pob gweithgaredd a ganiateir gael eu cynnwys o fewn cynlyn cymorth, sy'n mynd i'r afael â phroblemau tai a digartrefedd person.

Tra bod y ddogfen hon yn ymwneud â gweithgareddau a ariennir o fewn y Grant Cymorth Tai, efallai bydd gwahaniaethau lleol i'w gweld. Dylai pob gwasanaeth gael ei asesu ar sail achos wrth achos.

Mae Pennod 2 y cyfarwyddyd (Cymhwystra) hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Gellir cynnig GCT i unrhyw un, waeth beth yw eu daliadaeth.
- Egwyddorion y Grant Cymorth Tai yw:
    - Y mesurau atal cynharaf yw'r mwyaf effeithiol, y mwyaf cost-effeithiol, a'r rhai y dylid eu dewis gyntaf bob amser
    - Mae mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater gwasanaethau cyhoeddus - yn hytrach na ‘mater tai’.
    - Dylai pob gwasanaeth sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog, gan weithio at eu cryfderau a'u cefnogi i gyrraedd eu huchelgeisiau.
    - Dylai gwasanaethau gael eu comisiynu a'u darparu mewn ffordd sy'n wybodus o ran seicoleg, gan ystyried effaith trawma ar bobl sydd ag angen am gefnogaeth, er mwyn cael effaith cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys pum darn cydrannol y dulliau seicolegol gwybodus y fframwaith seicolegol; perthnasau; cymorth a hyfforddiant staff; arfer sy'n cynhyrchu tystiolaeth a'r amgylchedd corfforol.
    - Dylai polisi, cyflenwad gwasanaethau ac arfer gael eu hysbrydoli a'u ffurfio mewn ffordd gydgynhyrchiol a gan y rheiny sydd â phrofiad byw.
    - Dylai gwasanaethau gael eu datblygu gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael
    - Dylai'r dyletswyddau yn Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 fod yn ddewis olaf - nid y cyntaf - a dylai'r gwasanaethau i gyd weithredu o fewn ysbryd, ac nid dim ond llythyren y gyfraith.
    - Rydym yn disgwyl i wasanaethau drin pobl â pharch ac fel arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain, gweithio gydag empathi, gwrando a datblygu perthnasau ymddiriedus a bod yn atebol i ddefnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a chomisiynwyr gwasanaethau
    - Rhaid cyflenwi cymorth tai mewn ffordd sy'n galluogi cyflenwad effeithiol gwasanaethau cyhoeddus cyflenwol trwy sicrhau nad yw eu heffaith yn cael ei thanseilio gan amgylchiadau tai ansefydlog. Er enghraifft, gallai effaith gwasanaethau iechyd meddwl gael ei thanseilio gan ffordd anhrefnus o fyw - gall sefydlogi amgylchiadau tai unigolyn wella effaith yr ymateb clinigol hwnnw. Bydd y CGT yn gwneud hyn trwy fabwysiadu dulliau cydweithredol o weithio gyda swyddogaethau ac asiantaethau eraill.
    - Darparu gwasanaethau sy'n datblygu capasiti a gallu unigolion neu aelwydydd i gynnal cartref.
    - Darparu gwasanaethau sy'n atal digartrefedd neu'r angen i unigolyn fyw mewn lleoliad sefydliadol amhriodol.
    - Rhoi neu hwyluso mynediad at dai addas i unigolion neu aelwydydd.
    - Darparu gwasanaethau sy'n lleddfu effaith digartrefedd ar unigolyn neu aelwydydd.
    - Trefnu mynediad at wasanaethau eraill i bobl sydd ag angen am dai.
    - Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyda phobl broffesiynol eraill a'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys mewn ysgolion a cholegau.
    - Camau i orfodi deddfwriaeth a fwriadwyd i sicrhau a chynnal mynediad at gartrefi o ansawdd da, a ariannwyd o'r blaen trwy grant Rhentu Doeth Cymru (RhDC). Er enghraifft, deddfwriaeth sy'n gosod dyletswyddau ar landlordiaid i fod wedi eu cofrestru ac ynglŷn â rheoli tenantiaethau.
- Mae'n rhaid i bobl sy'n gymwys ar gyfer GCT fod dros 16 oed.
- Caniateir gwaith cyn-tenantiaeth gydag unigolion dan 16 oed ble mai'r pwrpas yw datblygu'r capasiti a gallu i gymryd cytundeb meddiannaeth neu'r hawl i feddiannu cartref ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed.

REVIEW 2024

- Ble mae angen am gefnogaeth ariannol, fel cyfryngu teuluol, a phrif bwrpas hynny yw caniatáu i unigolyn o dan 16 oed aros yn y cartref teuluol, gellir defnyddio GCT ar gyfer y gwasanaethau yma
- Bydd darpariaeth gwasanaethau GCT yn seiliedig ar **anghenion a nodwyd neu a aseswyd;** mae'n rhaid i'r asesiad hwn fod yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar y person."
- Bydd y CGT yn galluogi, ac yn datblygu annibyniaeth person, h.y. **'gwneud gyda'** yn hytrach na **'gwneud dros'**. Ffocws y gwasanaeth fydd annog a chefnogi'r unigolyn i arfer dewis personol a hunan-benderfyniad.
- Rhaid i wasanaethau fod yn rhan o becyn o gefnogaeth y mae'n rhaid iddo fod yn seiliedig ar **gynllun cefnogaeth**, wedi ei gytuno gyda defnyddiwr y gwasanaeth ac yn cynnwys **asesiad risg** a chamau **rheolaeth risg**.
- Rhaid i wasanaethau ganolbwyntio ar ganlyniadau, a dylai cynlluniau cefnogaeth ar ba ganlyniadau sy'n i'w cyrraedd gan yr unigolion sy'n cael cefnogaeth sy'n derbyn cefnogaeth. Dylai gwasanaethau lynu at yr egwyddorion craidd yn y **Fframwaith Grant Cymorth Tai 2023.**

Housing Support
Grant Outcomes Fra

**Pam fod angen i ni ddiffinio Gweithgareddau a Ganiateir ar gyfer Cymorth yn Ymwneud â Thai?**

.

Er nad yw'r cyfarwyddyd uchod yn cynnwys rhestr o weithgareddau a ganiateir, mae'r Timau Grant Cymorth Tai yng Ngwent wedi datblygu (ac wedi diweddaru) y ddogfen hon, nid i rwystro arloesi ond i gynorthwyo asiantaethau ac unigolion i reoli disgwyliadau a deall pwrpas, amrediad a ffiniau'r GCT.

Mae rhestr yn nhrefn yr wyddor o **weithgareddau a ganiateir** ar y dudalen nesaf.

Mae rhestr o **weithgareddau a eithrir** ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cysylltwch â'ch Tîm Grant Cymorth Tai lleol am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.

REVIEW 2024

# Gweithgareddau a Ganiateir

| | |
|---|---|
| **1** | **LLETY (*CAEL HYD I ……..AMGEN*)** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Cynorthwyo'r unigolyn i edrych ar opsiynau ar gyfer cartref amgen<br>• Helpu'r unigolion i gynllunio ar gyfer cysylltu â'r landlord, h.y. llunio rhestr o gwestiynau posibl, helpu i drafod amodau cytundebau meddiannaeth.<br>• Gellir llenwi ffurflenni ar y cyd â defnyddiwr y gwasanaeth, ond nid ar eich pen eich hun<br>• Ariannu cynlluniau bond.<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Cludo defnyddwyr gwasanaeth i weld eiddo, ble mai darparu trafnidiaeth yw'r brif swyddogaeth<br>• Symud dodrefn<br>• Gwasanaethau addurno, glanhau neu grefftwyr<br>. |
| **2** | **LLETY (*SEFYDLU A GWASANAETHAU I GYNNAL TENANTIAETH……..*)** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gall y gweithiwr cymorth fynd trwy'r cytundeb tenantiaeth gyda'r unigolyn, gan esbonio a diffinio'r cynnwys, cynllunio gyda'r unigolyn sut byddan nhw'n cysylltu â chwmnïau cyfleustodau ac yn gwneud taliadau (cysylltu ar ran unigolion ble mae anabledd corfforol, anhawster dysgu neu broblemau emosiynol yn atal yr unigolyn rhag gwneud hynny'n annibynnol)<br>• Edrych ar opsiynau ar gyfer dulliau talu - (dylid annog unigolion i ystyried yr opsiynau ble bynnag mae hynny''n bosibl)<br>• Helpu'r unigolyn i gwblhau rhestr o gwestiynau i ofyn i gwmnïau cyfleustodau neu gynllun o dasgau i'w gwneud, rhestr o rifau ffôn, dangos a modelu sgyrsiau ffôn gydag asiantaethau a chwmnïau<br>• Helpu'r unigolyn i gwblhau rhestr o eitemau y mae eu hangen ar gyfer y cartref, e.e. llestri, cyllyll a ffyrc, oergell, eitemau addurno etc.<br>• Mynd gydag unigolion i roi cyngor a'u helpu i brynu eitemau hanfodol i'r cartref e.e. o siopau DIY, nwyddau trydanol<br>• Cymorth i drefnu cludo nwyddau a chyfleustodau<br>• Cyfryngu gyda landlordiaid<br>• Cyflenwad offer atgyfnerthu<br>• Gwasanaethau cyfieithu, dehongli neu IAP, ble mae gwasanaethau cymorth yn gweithio gyda Grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, ffoaduriaid a phobl â nam ar eu golwg neu eu clyw.<br>• Darparu nwyddau fel bwyd/nwyddau ymolchi mewn llety dros dro i helpu unigolion i setlo.<br>• Cynorthwyo'r unigolyn i wneud cais am daliadau yn ôl disgresiwn neu daliadau un tro.<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Symud unigolyn i mewn i gartref h.y. symud dodrefn, addurno, gwasanaethau crefftwr, gosod peiriannau golchi, poptai etc.<br>• Prynu eitemau, dodrefn neu nwyddau gwyn ar ran unigolion |
| **3** | **LLETY (*CYNNAL A CHADW……..*)** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gweithio gyda'r unigolyn i nodi problemau neu bryderon sy'n peryglu tenantiaeth yr unigolyn e.e. strategaethau i leihau llygredd aer ac ymddygiadau gwrthgymdeithasol<br>• Gweithio gyda'r unigolyn i'w helpu i ddeall telerau eu cytundeb meddiannaeth<br>• Gall y gweithiwr cymorth gynorthwyo'r unigolyn i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael wrth fynd i'r afael â materion atgyweirio a chynnal a chadw |

REVIEW 2024

| | |
|---|---|
| | • Gwasanaethau glanhau/clirio ble maen nhw'n cael eu darparu fel ymyrraeth gyfyngedig o ran amser ochr yn ochr â chefnogaeth emosiynol gyda darparu gwasanaethau cronni arbenigol gyda'r prif fwriad o gefnogi'r unigolyn i ddatblygu eu sgiliau eu hunain yn y maes hwn.<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Gweithredu ar ran y landlord i roi Hysbysiadau Torri Tenantiaeth neu Hysbysiad yn Ceisio Meddiannaeth<br>• Gwneud gwelliannau, atgyweiriadau neu waith cynnal a chadw<br>• Tasgau domestic fel siopa, coginio, glanhau, garddio etc. |
| **4** | **ADDASIADAU I WELLA HYGYRCHEDD YN Y CARTREF** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Helpu'r unigolyn i gael grantiau a gwybodaeth neu i atgyfeirio nhw eu hunain at asiantaethau priodol a all gynorthwyo gydag addasiadau a gwelliannau i eiddo<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Y gweithiwr cymorth yn gwneud newidiadau yn uniongyrchol ei hun i eiddo |
| **5** | **GWASANAETHAU LARWM** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Monitro larymau'n unig<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Gosod, atgyweirio, cynnal a chadw, cost cyfalaf neu ddarparu uned |
| **6** | **PLANT** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Cynnig gwybodaeth, cefnogaeth, a chyfeirio ar faterion yn ymwneud â lles plant fel sgiliau rhianta, cyfryngu, cysylltu ag ysgolion, gweithwyr iechyd ac asiantaethau statudol neu wirfoddol eraill<br>• Cefnogaeth i berson o dan 16 oed ble mai'r rhiant/gofalwr yw defnyddiwr y gwasanaeth, a gall ymddygiad gael effaith ar gadw tenantiaeth<br>• Costau perthnasol yn gysylltiedig â darparu cefnogaeth effeithiol, fel gofal plant neu gostau teithio, i alluogi unigolion i fynd ar gyrsiau neu weithgareddau tebyg i fynd i'r afael â'u hanghenion am gefnogaeth.<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Darparu gwasanaeth gwarchod babi/plentyn yn uniongyrchol gan y gweithiwr cymorth<br>• Therapi ymddygiad ffurfiol i blant<br>• Gwaith chwarae<br>• Cefnogaeth i berson dan 16 oed ble nad yw'r rhiant/gofalwr eisoes yn derbyn cefnogaeth, ac eithrio i gael gwasanaethau cyfryngu teuluol ble mai'r prif bwrpas yw caniatáu i'r unigolyn dan 16 oed aros yn y cartref teuluol.<br>• Ni all y gweithiwr cymorth fod yn rhan o'r broses benderfynu. |
| **7** | **ADNODDAU CYMUNEDOL** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Darparu gwybodaeth (a gwneud ymholiadau gyda neu ar ran yr unigolyn) am yr adnoddau cymunedol sydd ar gael a'r trefniadau ar gyfer eu cael.<br>• Gallai adnoddau cymunedol gynnwys<br>    ○ gwasanaethau statudol fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Tai a'r Gwasanaeth Prawf<br>    ○ Addysg, hyfforddiant ac asiantaethau cyflogaeth<br>    ○ gwasanaeth proffesiynol fel cyngor cyfreithiol<br>    ○ grwpiau/gwasanaeth cymunedol gwirfoddol a lleol |

REVIEW 2024

| | |
|---|---|
| | • Os oes angen cefnogaeth ar yr unigolyn i fynd i'r uchod, caniateir i'r gweithiwr cymorth gludo defnyddiwr y gwasanaeth i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau'r darparwr cymorth)<br>• Mynd at raglenni cynhwysiant digidol. |
| **8** | **GALW HEIBIO** |
| | • Rhoi cyngor a chyfarwyddyd GCT o dro i dro ble nad oes cynllun cymorth yn bod, e.e. gweithwyr cymorth yn staffio sesiwn 'galw heibio' am gefnogaeth mewn perthynas â thai |
| **9** | **CEFNOGAETH EMOSIYNOL** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gall y gweithiwr cymorth roi cymorth emosiynol sy'n hyrwyddo gwydnwch a lles i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth cymorth tai, i ganiatáu i'r unigolion rannu eu teimladau a'u pryderon am rywbeth sy'n digwydd yn eu bywydau sy'n effeithio ar eu gallu i gynnal eu llety<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Cwnsela arbenigol neu ffurfiol<br>• Gwasanaethau cyfeillio<br>• Cefnogaeth sy'n glinigol ei natur a ble mae gan gorff statudol y cyfrifoldeb i roi'r gwasanaeth hwnnw. |
| **10** | **CYLLID AC INCWM** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Cyllidebu a threfnu arian, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer budd-daliadau priodol i gael yr incwm mwyaf (e.e. cael rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni/ tlodi tanwydd fel USwitch, cael Water Assist, y Gronfa Cymorth Dewisol a Thaliadau Disgresiwn at Gostau Tai<br>• Cynorthwyo gyda datblygu strategaethau i leihau unrhyw ddyledion a mynd i'r afael â materion ariannol o fewn rheoliadau penodol a bennir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Cyfrifoldeb y darparwr sy'n rhoi cyngor ar gyllidebu a dyled yw gwirio gyda'r AYA a oes angen iddyn nhw fod wedi eu cofrestru gyda'r AYA.<br>• Gall y gweithiwr cymorth wneud ymholiadau a chysylltu ag asiantaethau (gyda neu ar ran yr unigolyn) mewn perthynas â'r uchod<br>• Cefnogi'r unigolyn i nodi ffyrdd priodol o dalu rhent e.e. sefydlu taliadau debyd uniongyrchol<br>• Llunio cynllun talu gyda'r unigolyn fel rhan o gymorth ariannol cyfan gwbl yr unigolyn<br>• Cysylltu â'r landlord ar ran yr unigolyn i drafod ad-dalu ôl-ddyledion<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Gweithredu fel deiliad cyllideb<br>• Cymryd cyfrifoldeb am unrhyw drafodion ariannol<br>• Cludo defnyddwyr gwasanaeth at fanc<br>• Cymryd rhan ariannol mewn perthynas â thalu am ddarpariaeth gwasanaethau gofal<br>• Cymryd cyfrifoldeb am arian yr unigolyn ble barnwyd nad oes gan unigolion gapasiti i wneud hynny<br>• Ni ddylai gweithwyr cymorth drin arian unigolyn, eu cardiau credyd neu ddebyd, ni ddylent fod yn gwybod cyfrinrifau ac ni ddylent dalu am eitemau gan ddefnyddio arian unigolyn. |
| **11** | **GOFAL IECHYD** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Trefnu mynediad at wasanaethau iechyd brys ar ran unigolyn e.e. apwyntiad deintydd neu feddyg teulu<br>• Cyfeirio a chynghori'r unigolyn am asiantaethau a all gynorthwyo gyda gorchmynion triniaeth a phrofi cyffuriau ac alcohol<br>• Cysylltu ag asiantaethau perthnasol<br>• Trefnu gwasanaethau casglu presgripsiwn |

REVIEW 2024

- Cyfeirio a chynghori'r unigolyn am asiantaethau a all gynorthwyo gydag adferiad a rhaglenni cwnsela a sgrinio arbenigol.

**Nid yw hyn yn cynnwys:**

- Atgoffa am, dal a rhoi meddyginiaeth
- Gosod/newid rhwymynnau
- Cyngor ar feddyginiaeth
- Ymyrraeth feddygol uniongyrchol
- Llunio cynllun gweithredu gydag unigolyn i'w cynorthwyo i ddilyn eu gorchymyn triniaeth a phrofi cyffuriau ac alcohol
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cydymffurfio â gorchmynion profi

**12 SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL**

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Gall y gweithiwr cymorth ymgymryd â rôl ysgogol, modelu ac annog wrth ddysgu sgiliau bywyd i unigolion, gall hyn gynnwys dangos sut i ddefnyddio offer, llunio cynlluniau rheoli'r cartref gyda'r unigolyn (e.e. amserlen o weithgareddau yn y cartref sydd i'w gwneud pob wythnos/mis), ac edrych ar opsiynau gyda'r unigolyn a'u hannog i gynllunio, paratoi a threfnu eu hunain e.e. paratoi bwyd, siopa neu goginio
- Dylai hyn fod yn ddull cyfyngedig o ran amser gyda'r bwriad o fod yr unigolyn yn ymgymryd â'r tasgau mor annibynnol â phosibl ymhen amser. Bydd nifer y sesiynau y mae eu hangen yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn
- Caniateir i'r gweithiwr cymorth ddangos sut i gloi drysau a ffenestri'n ddiogel, diffrdd offer a llunio cynllun diogelwch i'r unigolyn fel y byddan nhw'n gallu gwneud y tasgau yma'n annibynnol yn y pen draw
- Cyngor ynglyn â rheoli mynediad at y cartref

**Nid yw hyn yn cynnwys:**

- Gofal yn y cartref a phersonol
- Gweithwyr cymorth yn ymgymryd ag unrhyw dasgau eu hunain neu oruchwyliaeth parhaus o unigolion
- Cludiant yn barhaus i fynd â'r unigolyn i siopa
- Siopa ar ran yr unigolyn, gan gynnwys pan fo unigolyn yn bresennol ond ddim yn chwarae rhan weithredol yn y broses
- Ateb y drws ar ran unigolion
- Gwirio ID ar ran unigolion
- Gofyn i ymwlewyr lofnodi wrth ddod i mewn ac wrth fynd allan
- Gofalu am ymwelwyr (e.e. gwneud te a choffi etc.)
- Plismona ymddygiad unigolyn neu'r adeilad

**13 ADFERIAD AR ÔL SALWCH/ANABLEDD A GAFWYDD**

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cefnogaeth i wneud cais am gymhorthion priodol, addasiadau a grantiau i wella mynediad i'r cartref

**Nid yw hyn yn cynnwys:**

- Gweithgareddau yn ymwneud â thrin â llaw

**14 DIOGELU - OEDOLION**

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Gall gweithiwr cymorth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol i gynadleddau diogelu (yn bersonol neu'n ysgrifenedig)
- Gall y gweithiwr cymorth gyfrannu at a gweithredu cynllun diogelu
- Dylai'r gweithiwr cymorth fod â gwybodaeth o bolisi a gweithdrefnau eu sefydliad mewn perthynas â diogelu, a chyflwyno ffurflen dyletswydd i adrodd i'w tîm diogelu lleol ble maen nhw'n amau bod camdriniaeth yn digwydd neu efallai'n digwydd.

REVIEW 2024

| | |
|---|---|
| | **Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Eiriolaeth, gwarchodaeth neu gludiant i'r unigolyn.<br>• Ni all y gweithiwr cymorth fod yn rhan o'r broses benderfynu. |
| **15** | **DIOGELU - PLANT** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gall y gweithiwr cymorth gyflwyno gwyboaeth ffeithiol i gynadledddau diogelu (ar ôl y cyfarfod cychwynnol, dylai'r rheolwr cymorth gytuno i wahoddiadau i fynd i gyfarfodydd diogelu ychwanegol a dylent fod yn ddibynnol ar yr achos unigol a/neu'r agenda).<br>• Gall y gweithiwr cymorth gyfrannu at a gweithredu cynllun diogelu i unigolion 14+ oed sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau cyfryngu teuluol.<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Eiriolaeth, gwarchodaeth neu gludiant i'r unigolyn<br>• Ni all y gweithiwr cymorth fod yn rhan o'r broses benderfynu. |
| **16** | **CYFRANOGIAD DEFNYDDIWR Y GWASANAETH** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gall y gweithiwr cymorth gefnogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltiad, yn fewnol ac yn allanol i'r darparwr cymorth<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Y gweithiwr cymorth yn gweithredu fel un sy'n hwyluso digwyddiadau neu gyfarfodydd cyfranogiad Defnyddiwr<br>• Ni ellir defnyddio arian GCT i dalu am gostau trefniadol digwyddiadau a chyfarfodydd fel llogi ystafelloedd, lluniaeth |
| **17** | **SGILIAU CYMDEITHASOL** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gall y gweithiwr cymorth drafod rhyngweithio cymdeithasol priodol gyda'r unigolyn ble gall eu hymddygiad presennol effeithiol mewn ffordd niweidiol ar eu tenantiaeth neu eu gallu i gynnal eu cartref eu hunain neu gael hyd i/gadw swydd<br>• Gall y gweithiwr cymorth helpu'r unigolyn i fynd at gyrsiau a hyfforddiant<br>• Os oes angen cefnogaeth ar yr unigolyn i fynd i'r uchod, caniateir i'r gweithiwr cymorth gludo'r unigolyn i fynd i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau'r darparwr cymorth) |
| **18** | **CLUDIANT / SYMUDEDD** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Hyfforddiant a chyngor gyda'r defnydd priodol o drafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o gynllun cymorth e.e. sut i brynu tocynnau trên, gweld amserlenni etc<br>• Hyfforddiant a chyngor gyda chael cyfarwyddiadau a chludiant at weithgaredd/lleoliad newydd<br>• Os oes angen cefnogaeth ar yr unigolyn i fynd i'r uchod, caniateir i'r gweithiwr cymorth gludo'r unigolyn i fynd i ymweliadau cychwynnol yn unig (yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau'r darparwr cymorth)<br>• Bydd enghreifftiau eithriadol eraill yn cael eu penderfynu fesul achos<br><br>**Nid yw hyn yn cynnwys:**<br>• Cludiant a mynd gyda'r unigolyn dros y tymor hir<br>• Darparu gwasanaeth trafnidiaeth sy'n ailadroddus a/neu sy'n hybu dibyniaeth<br>• Gweithiwr cymorth yn gwthio defnyddiwr cadair olwyn<br>• Cefnogaeth gorfforol i'w galluogi i fynd i mewn i/dod allan o gerbydau neu hwyluso'r defnydd o gymhorthion symudedd<br>• Cymorth tymor hir/parhaol gyda, neu fynd gydag unigolyn ar drafnidiaeth gyhoeddus ble mae'n annhebygol y bydd yr unigolyn yn gwneud y dasg yn annibynnol |

REVIEW 2024

| | |
|---|---|
| | • Y defnydd o gerbyd ar gyfer cludo pethau |
| **19** | **GWEITHDAI** |
| | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Gweithdai sy'n canolbwyntio ar GCT ac sy'n gyfyngedig o ran amser, ac sy'n cael eu nodi ar gynllun cymorth yr unigolyn |

## Gweithgareddau a Eithrir

Mae'r rhain yn cynnwys:

1) Cyngor neu eiriolaeth nad sy'n gysylltiedig â'r denantiaeth neu gynnal a chadw'r cartref
2) Gweithredu fel oedolyn priodol
3) Gwasanaethau cyfeillio / cefnogaeth cymheiriaid
4) Coginio prydiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain
5) Cyfleusterau meithrinfa a roddir yn uniongyrchol
6) Gwasanaethau addurno
7) Cludo prydiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain
8) Gwasanaethau'r cartref a glanhau
9) Bwydo, gweini i unigolion neu osod/clirio'r bwrdd
10) Garddio / gwasanaethau clirio gardd oni bai bod unigolyn yn derbyn cefnogaeth trwy wasanaeth casglu
11) Tasgau cynnal yr eiddo a fyddai fel arfer yn cael eu hariannu gan renti neu dâl gwasanaeth
12) Meddyginiaeth, goruchwylio, annog neu fonitro
13) Darpariaeth barhaus o drafnidiaeth
14) Gwasanaethau gofal personol (enghreifftiau): Gweithgareddau sy'n cynnwys cyffwrdd â'r unigolyn e.e. golchi personol, cymryd meddyginiaeth, bwyta, defnyddio'r toiled, gwisgo a thasgau ymwthiol personol eraill
15) Cyngor, cyfarwyddyd neu annog mewn perthynas ag ymolchi, cymryd meddyginiaeth, bwyta, mynd i'r toiled, gwisgo a thasgau ymwthiol personol eraill
16) Gweithgareddau ymgymerir â nhw oherwydd nad yw'r unigolyn yn gallu gwneud y gweithgaredd eu hunain e.e. gwthio cadair olwyn, cario/symud eitemau yn y cartref, cloi drysau
17) Casglu rhent
18) Gwasanaethau seibiant
19) Gwasnanaethau ble mae yna ddyletswydd statudol (ble mae gofyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ariannu hynny o dan deddfwriaeth gofal yn y gymuned)
20) Goruchwylio gorchmynion llys
21) Goruchwylio troseddwyr

REVIEW 2024